**Is Ddeddf Etholiadau Arfaethedig**

**Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth**

# 1. Rhagarweiniad

1.1 Cynhelir etholiadau yn unol â'r is-ddeddf hon ar gyfer y swyddi canlynol:

a) Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion

b) Ymddiriedolwyr sy'n Fyfyrwyr

c) Swyddogion Gwirfoddol

d) Cynadleddau UCM (lle bo'n briodol)

## 2. Cymhwysedd Etholiadol

2.1 Dim ond aelodau cyffredin llawn UMPA all sefyll a phleidleisio yn etholiadau UMPA. Mae hyn yn amodol ar y canlynol:

a) Ni all yr un aelod sefyll etholiad am fwy nag un rôl mewn pob math o rôl.

b) Cyfyngir aelodau i ddau gyfnod yn rôl Swyddog Ymddiriedolwr.

2.2 Yn achos y rolau sy'n cynrychioli myfyrwyr o grwpiau rhyddhad ac adrannau corff y myfyrwyr, gall yr Undeb gyfyngu'r ymgeiswyr i'r rheiny sy'n hunan-ddiffinio i'r grwpiau rhyddhad neu'r adrannau hynny.

## 3. Swyddog Etholiadau

3.1 Caiff y Swyddog Etholiadau ei benodi'n flynyddol gan Gyfarfod Blynyddol yr Aelodaeth. Bydd y Swyddog hwnnw'n annibynnol o'r Undeb ac ni fydd yn aelod o'r Undeb chwaith.

Bydd y Swyddog Etholiadau'n gyfrifol am gynnal a gweinyddu holl etholiadau'r Undeb ac ef yn unig fydd â chyfrifoldeb am ddehongli rheoliadau'r etholiadau.

3.3 Gall y Swyddog Etholiadau benodi aelod o staff Undeb y Myfyrwyr yn Ddirprwy Swyddog(ion) Etholiadau i weithredu ar ei ran ac, at ddibenion yr is-ddeddf hon, gyda chydsyniad y Swyddog Etholiadau, gall y Dirprwy(on) ddirprwyo dyletswyddau fel bo'n briodol.

3.4 Bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau'n cynnig amserlen ar gyfer etholiadau sy'n sicrhau etholiad amserol yr Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion, yr Ymddiriedolwyr sy'n Fyfyrwyr, y Swyddogion Gwirfoddol a chynrychiolwyr i gynadleddau blynyddol UCM ac eraill fel bo'u hangen o bryd i'w gilydd.

3.5 Bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau, gyda chydsyniad y Swyddog Etholiadau, yn cyhoeddi rheolau a rheoliadau'r etholiadau cyn unrhyw etholiad. Bydd y rheolau a rheoliadau'n canolbwyntio ar sefydlu proses etholiadol deg a chlir; hefyd darparu eglurder ar ymddygiad, cyhoeddusrwydd a gwariant wrth ymgyrchu yn ogystal â chyfleusterau'r undeb sydd ar gael i'r ymgeiswyr.

3.6 Bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau'n trefnu cyfleoedd i fyfyrwyr holi'r ymgeiswyr.

3.7 Bydd modd i'r Swyddog Etholiadau wneud y canlynol:

a) Diarddel neu gosbi ymgeiswyr;

b) Rhoi cyfarwyddiadau i ymgeiswyr yn ystod etholiad;

c) Gorfodi ail-gyfrif;

d) Dileu etholiad a threfnu un newydd yn ei le.

## 4. Amserlen yr Etholiadau

4.1 Bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau yn cyhoeddi Amserlen yr Etholiad a bydd honno'n cynnwys dyddiadau ac amseroedd ar gyfer cwblhau'r canlynol:

a) Enwebiadau

b) Sesiwn Briffio'r Ymgeiswyr

c) Maniffestos

d) Sesiwn Holi'r Ymgeiswyr (lle bo'n briodol)

e) Pleidleisio

f) Canlyniadau

4.2 Caiff Amserlen yr Etholiad ei chyhoeddi a'i dosbarthu'n ddigonol ynghyd â deunydd sy'n hyrwyddo'r etholiad.

4.3 Bydd y cyfnodau a nodir yn Amserlen yr Etholiad yn ddigonol i ganiatáu'r lefel uchaf rhesymol o gyfranogiad yn yr etholiad.

## 5. Enwebiadau

5.1 Caiff yr enwebiadau eu cyflwyno yn unol â'r canllawiau a gyhoeddir gan y Dirprwy Swyddog Etholiadau.

5.2 Bydd y cyfnod enwebu'n para o leiaf saith (7) diwrnod llawn cyn i'r cyfnod canfasio ddechrau

5.3 Pan fydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau'n fodlon, caiff pob enwebiad dilys ei gadarnhau â'r ymgeiswyr.

## 6. Maniffestos

6.1 Bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau'n cyhoeddi canllawiau ar faniffestos yn y rheolau a rheoliadau ar gyfer etholiadau.

6.2 Caiff maniffestos ond eu derbyn os cânt eu cyflwyno erbyn y dyddiad a nodir yn Amserlen yr Etholiadau.

6.3 Caiff maniffestos eu harddangos ar wefan yr Undeb ac unrhyw le arall a gaiff ei benderfynu gan y Swyddog Etholiadau.

## 7 Ymddygiad yn ystod yr Etholiadau

7.1 Bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau, gyda chydsyniad y Swyddog Etholiadau, yn darparu canllawiau i'r ymgeiswyr ar ymddygiad derbyniol yn ystod yr etholiadau. Rhaid i ymgeiswyr ymddwyn yn unol â'r canllawiau hyn.

7.2 Bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau'n darparu sesiynau hyfforddi yn rheolau'r Is-ddeddf hon ac unrhyw ganllawiau a roddir i'r holl ymgeiswyr.

7.3 Drwy gydol etholiad, rhaid i'r holl ymgeiswyr gadw at yr egwyddorion canlynol o ran ymddygiad derbyniol:

a) Gwneud dim ond yr hyn sydd gan ymgeiswyr eraill gyfle cyfartal i'w wneud;

b) Trin pob myfyriwr, ymgeisydd ac aelod staff â pharch.

7.4. Mae ymddygiad annerbyniol yn ystod etholiadau'n cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, unrhyw un o'r arferion canlynol (gan gynnwys unrhyw ymgais i wneud hynny):

a) Defnyddio adnoddau'r Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr i hybu etholiad ymgeisydd (ac eithrio pan fydd y Swyddog Etholiadau'n caniatáu i hynny ddigwydd);

b) Anharddu neu ymyrryd ar gyhoeddusrwydd ymgeisydd;

c) Llwgrwobrwyo pleidleiswyr neu swyddogion etholiadol;

d) Bygwth neu aflonyddu ar bleidleiswyr neu swyddogion etholiadol;

e) Cynhyrchu cyhoeddusrwydd sarhaus neu ddifenwol;

f) Atal pleidlais rydd a dienw pleidleiswyr, gan gynnwys defnyddio dyfeisiadau symudol yn amhriodol;

g) Peryglu neu amharu ar onestrwydd yr etholiad.

7.5 Gall y Swyddog Etholiadau gosbi ymgeiswyr, gan gynnwys eu diarddel o'r etholiad, am fynd yn groes i'r canllawiau ymddygiad.

7.6 Gall ymgeiswyr ddefnyddio ymgyrchwyr sy'n rhoi cymorth iddynt yn ystod yr etholiad. Serch hynny, bydd yr ymgeisydd yn parhau i fod yn gyfrifol am ymddygiad yr ymgyrchwyr hyn a rhaid i'r ymgeiswyr wneud pob peth ymarferol posib i sicrhau bod yr ymgyrchwyr yn cadw at yr Is-ddeddf hon a'r canllawiau a roddir. Caiff unrhyw ymgyrchwyr sy'n gweithredu'n groes i'r Is-ddeddf hon ac mewn unrhyw ganllawiau a roddir, eu trin fel pe bai'r ymgeisydd ei hun wedi torri'r Is-ddeddf a'r canllawiau a gyflwynir.

7.7 At ddibenion etholiad, diffiniad ymgyrchydd yw rhywun yr ystyrir iddo fod yn gweithredu ar ran ymgeisydd i hybu etholiad yr ymgeisydd hwnnw.

## 8. Ymgeiswyr sydd eisoes yn dal swyddi

8.1 Rhaid i'r Ymddiriedolwyr presennol roi gwybod i'r Swyddog Etholiadau eu bod am gymryd gwyliau â thâl os ydynt yn dymuno ymgymryd â gweithgareddau ymgyrchu yn ystod oriau swyddfa cyffredin yng ngyfnod yr etholiad.

8.2 Ni chaiff Ymddiriedolwyr presennol ddefnyddio unrhyw adnoddau sy'n perthyn i'w swydd bresennol i'w cynorthwyo mewn unrhyw ymgyrch etholiadol.

8.3 Bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau'n cynhyrchu gwybodaeth i gynorthwyo'r rheiny sydd eisoes yn Ymddiriedolwyr mewn cydymffurfio â Chymal 7 yr Is-ddeddf hon.

## 9. Pleidleisio

9.1 Caiff manylion yr etholiadau a'r broses bleidleisio eu cyhoeddi drwy wefan UMPA, ac unrhyw le arall a gaiff ei benderfynu gan y Dirprwy Swyddog Etholiadau.

9.2 Caiff pob etholiad ei gynnal drwy bleidlais gudd lle na fydd gan bob pleidleisiwr ond un bleidlais drosglwyddadwy. Bydd yn dilyn y fethodoleg a osodwyd gan Gymdeithas Newid Etholiadol Prydain Fawr ac Iwerddon yn 1997.

9.3 Bydd Ail-agor Enwebiadau yn ymgeisydd ym mhob etholiad. Os caiff Ail-agor Enwebiadau ei ethol, bydd y rôl yn wag a chynhelir etholiad newydd ar amser a dyddiad a gyhoeddir gan y Dirprwy Swyddog Etholiadau.

9.4 Ni chaiff y pleidleisiau eu cyfrif pan fydd disgwyl am benderfyniad gan y Swyddog Etholiadau ar gŵyn.

## 11. Cwynion

11.1 Caiff cwynion bod ymgeisydd neu aelod o dîm ei ymgyrch wedi ymddwyn yn groes i'r Is-ddeddf neu ganllawiau a gyhoeddir eu derbyn hyd at un awr wedi diwedd y bleidlais.

11.2 Rhaid cyflwyno cwynion ar ffurf ysgrifenedig neu ar ffurf a benderfynir gan y Dirprwy Swyddog Etholiadau.

11.3 Os oes angen, bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau'n ymchwilio i'r gŵyn i gasglu tystiolaeth bellach.

11.4 Bydd y Swyddog Etholiadau'n gwneud penderfyniad ar y gŵyn ac, os oes angen, bydd yn cosbi ar ei ddisgresiwn. Gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:

a) gohirio etholiadau ar gyfer rolau penodol

b) cyfeirio mater at weithdrefnau disgyblu'r Undeb neu'r Brifysgol

c) diarddel ymgeiswyr penodol

## 12. Apeliadau

12.1 Gellir gwneud apêl yn erbyn penderfyniad y Swyddog Etholiadau ar y seiliau canlynol:

a) Os caiff yr is-ddeddf hon neu unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn ystod yr etholiad eu dehongli'n afresymol;

b) Ni chafodd y weithdrefn gywir a gyhoeddwyd yn yr is-ddeddf hon neu ganllawiau a roddir eu dilyn;

c) Mae'r Swyddog Etholiadau wedi bod yn rhagfarnllyd neu wedi dangos tuedd at ymgeisydd;

Mae'r Swyddog Etholiadau wedi methu ag ystyried y dystiolaeth sydd ar gael.

12.2. Rhaid gwneud apêl cyn hanner-dydd fan pellaf ar y diwrnod ar ôl i benderfyniad y Swyddog Etholiadau gael ei gyfathrebu i'r ymgeisydd hwnnw.

12.3 Os caiff apêl ei gwneud gan ymgeisydd, caiff panel apeliadau ei greu gan aelod o staff Undeb y Myfyrwyr sydd heb fod yn rhan o weinyddu'r etholiad hwnnw. Bydd y panel apeliadau'n cynnwys Ysgrifennydd y Brifysgol a dau unigolyn annibynnol a fyddai'n gymwys i gael eu penodi'n Swyddog Etholiadau.

12.4 Bydd y panel apeliadau'n penodi cadeirydd o blith ei aelodaeth.

12.5 Bydd y panel apeliadau'n clywed tystiolaeth gan y Dirprwy Swyddog Etholiadau ac unrhyw gyflwyniadau a wnaed gan yr ymgeisydd sy'n gwneud yr apêl.

Mae penderfyniad y panel apeliadau'n derfynol ac ni ellir apelio'r mater ymhellach.

## 13. Cyhoeddiadau

Caiff canlyniadau'r etholiadau eu cyhoeddi gan y Swyddog Etholiadau pan fydd y cyfrif ar gyfer pob swydd wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus.

Gosodir canlyniadau'r etholiadau ar wefan yr Undeb o fewn un (1) diwrnod gwaith o'r cyfrif.